Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Special Educational Needs Tribunal for Wales

Adroddiad Blynyddol 2012 –2013

Mae TAAAC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn gwneud ein gorau i ddarparu gwasanaethau mewn ieithoedd eraill lle mae angen.

Mae copïau o'r cyhoeddiad hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir lawrlwytho copïau o wefan TAAAC neu drwy gysylltu â'r ysgrifenyddiaeth.

Cyfeiriad: TAAAC
Adeiliadau Llywodraeth
Heol Spa Ddwyrain
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

Ffôn: 01597829800

Ffacs: 01597829801

Gwefan: www.taaac.gov.uk

E-bost: sentw@wales.gsi.gov.uk

ISBN: 978-1-4734-0690-2
© Hawlfraint y Goron Mawrth 2013

At: Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysgu a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhagfyr 2013

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy negfed Adroddiad Blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'r adroddiad yn manylu am weithgareddau'r Tribiwnlys am y flwyddyn 1 Medi 2012 i 31 Awst 2013.

Er mai dim ond un hawliad oedd yn cael ei ddwyn ymlaen gan blentyn a gawsom yn ystod y flwyddyn, credaf yn gryf na ddylai'r cynllun peilot hwn gael ei farnu yn ôl nifer yr apeliadau neu hawliadau yn unig. Mae'r gwaith a wneir yn y ddau Awdurdod Lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot ac yn wir gan yr Ysgrifenyddiaeth wedi bod yn wych ac wedi golygu y bu mwy o ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd barn y plentyn yn y broses gyfan a mwy o ffocws ar hynny.

Nodais y llynedd ynghylch y ffaith ein bod wedi dechrau defnyddio rheoli achosion. Rwy'n falch o adrodd bod hyn wedi mynd yn dda a bod hyn wedi cael ei wneud yn y rhan fwyaf o achosion drwy gyfrwng cynhadledd ffôn, sydd wedi bod yn llawer mwy cyfleus a chost-effeithiol i bob parti. Mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o'n hapeliadau a'n hawliadau bellach yn gymhleth iawn yn golygu bod rheoli achosion yn arf angenrheidiol er mwyn i'r Tribiwnlys weithredu'n effeithlon.

Er mwyn ymdrechu i sicrhau gwelliannau ac effeithlonrwydd pellach i'n defnyddwyr, rydym hefyd yn treialu gwrandawiadau papur ynghylch unrhyw apeliadau a hawliadau addas. Byddaf yn adrodd ymhellach ar y cynnydd ynghylch hyn yn y dyfodol.

Rhiannon Ellis Walker OBE
Llywydd, TAAAC

Cynnwys

Adran 1	Rhagair y Llywydd	5
Adran 2	Amdanom Ni	11
Adran 3	Perfformiad a Chynnydd	14
Adran 4	Ein Cwsmeriaid	33
Adran 5	Blaenoriaethau Busnes	34
Adran 6	Gwariant	35

Adran 1 – Rhagair y Llywydd

Dyma fy negfed adroddiad blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC). Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Medi 2012 a mis Awst 2013. Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol. Croesawir cwestiynau a sylwadau a gellir eu hanfon ataf drwy gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys.

Apeliadau AAA

Eleni cofrestrodd y tribiwnlys y nifer isaf o apeliadau ers sefydlu'r tribiwnlys yn 2003-2004.

Ystadegau allweddol:

- gwnaethom gofrestru 73 o apeliadau, sef lleihad o 15% ers 2011-2012,
- gwnaethom ddelio â 29 o apeliadau eraill a gafodd eu dwyn ymlaen o 2011-2012,
- gwnaethom ryddhau cyfanswm o 102 o apeliadau yn ystod y flwyddyn, sy'n lleihad o 6% ers 2011-2012,
- mae apeliadau am wrthod asesu wedi lleihau 25%,
- mae apeliadau yn erbyn rhannau 2, 3 a 4 o'r datganiad wedi cynyddu 45%; ac
- mae apeliadau yn erbyn rhannau 2 a 3 wedi lleihau 33%

Unwaith eto eleni, rydym yn canfod mai mwyafrif yr apeliadau sy'n mynd i wrandawiad llawn yw'r rhai o natur gymhleth ac nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn newid yn y dyfodol agos. Mae'r ffigurau hefyd yn dangos bod nifer fawr o apeliadau yn ymwneud â gwrthod asesu a bod canran fawr o'r rhain wedi'u hildio gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r tueddiad hwn yn parhau ar hyn o bryd ac yn rhywbeth yr wyf wedi ei drafod â'r Gweinidog Addysg yn fy nghyfarfod blynyddol ym mis Ionawr 2013. Mynegodd y Gweinidog ddiddordeb o ran y rhesymau pam bod yr apeliadau hyn wedi'u hildio gan yr Awdurdodau Lleol ac rydym ni fel Tribiwnlys bellach yn cofnodi rhesymau cyffredinol o ran pam cafodd yr apeliadau eu hildio.

Yn dilyn hyn, roeddem yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol pe gellid cyflymu'r apeliadau am Wrthod Asesu. Byddent fel arfer yn cymryd 20 wythnos ac roeddem yn teimlo bod hyn yn amser hir i bartïon orfod aros am ganlyniad apêl o'r natur hon ac nad oedd o fudd gorau i'r plentyn. O ganlyniad, ar ôl trafodaethau yn ein cyfarfodydd grŵp defnyddwyr, gwnaethom ddechrau peilot gyda'r nod o leihau amser i ddelio â'r apeliadau hyn o 20 wythnos i 10 wythnos. Trafodir canlyniadau llawn y peilot hwn ymhellach yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'n dda gennyf allu nodi y bu'r peilot yn llwyddiannus iawn ac mae'r egwyddor o leihau amser apeliadau gwrthod asesu i 10 wythnos wedi ei fabwysiadu bellach gan y Tribiwnlys.

O'r 102 o apeliadau yr ymdriniwyd â nhw yn 2012-2013:

- penderfynwyd ar 24 mewn gwrandawiad, sy'n gynnydd o 33% ers 2011-2012,
- tynnwyd 31 yn ôl gan y rhiant, sy'n lleihad o 20% ers 2011-2012,
- cafodd 27 eu hildio gan yr Awdurdod Lleol, sy'n gynnydd o 12% ers 2011-12,
- cafodd 1 apêl ei ddileu gan ei fod y tu allan i awdurdodaeth y tribiwnlys; a
- chafodd 19 o apeliadau eu cario drosodd i 2013-14, sy'n lleihad o 34% ers 2011-2012.

I ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, mae'r ffigurau diweddaraf o Ystadegau Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru[1] yn dangos:

- lleihad yng nghyfanswm y disgyblion â datganiadau, o 13,591 yn 2011-2012 i 13,564 yn 2012-2013; a
- lleihad yn nifer y disgyblion a gafodd eu hasesu o'r newydd i fod angen datganiad o 1,333 yn 2011-2012 i 1,286 yn 2012-2013.

Hawliadau Anabledd

Cafwyd chwe hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd eu cofrestru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae hawliadau anabledd yn parhau i gynrychioli ffracsiwn bychan o'n gwaith. Eto, yn yr hawliadau sydd yn mynd rhagddynt, rwyf wedi nodi mai nodwedd gyffredin yw ansicrwydd ymddangosiadol gan gyrff cyfrifol ynghylch y dyletswyddau sydd ganddynt.

Deng Mlwyddiant

Dathlodd y tribiwnlys ddeng mlwyddiant o weithredu ar 1 Medi 2013.

Ymysg yr ystadegau ers 2003:

- rydym wedi cofrestru 1,075 o apeliadau

	Cyfanswm yr Apeliadau 2003 - 2013	Canran yr Apeliadau
Gwrthod Asesu	312	29%
Gwrthod Datganiad	142	13%
Gwrthod Ailasesu	13	1%
Dod â Datganiad i Ben	20	2%
Rhannau 2 a 3	206	19%
Rhannau 2, 3 a 4	228	21%
Rhan 3	76	7%
Rhan 4	47	4%

[1] Ystadegau Cymru, Llywodraeth Cymru, SDR 100/2013 Disgyblion â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig: Ionawr 2013

- rydym wedi cofrestru 44 cais
- rydym wedi cynnal 327 o wrandawiadau

	Cyfanswm y Gwrandawiadau 2003 - 2013	Canran y Gwrandawiadau
Cynhaliwyd	262	84%
Gwrthodwyd	59	14%
Dilëwyd	6	3%
Cyfanswm	**327**	**100%**

- Gwnaed 16 o geisiadau i'r Uchel Lys/Tribiwnlys Uwch

Astudiaethau Peilot

Cynhaliodd y tribiwnlys ddwy astudiaeth beilot yn ystod 2012-2013.

Gwrthod Asesu:

Cynhaliwyd peilot rhwng Ionawr ac Awst 2013 gyda'r nod o gwblhau apeliadau gwrthod asesu o fewn 10 wythnos yn hytrach na'r cyfndo presennol o 20 wythnos. Nid yw'r lleihad hwn mewn amser yn effeithio ar yr amser sydd gan bartïon i gyflwyno tystiolaeth, ond mae'n lleihad gweinyddol. Gofynnir i bartïon a ydynt ar gael yn ystod wythnos benodol yn hytrach na chyfnod o ddau fis.

Cyn y peilot, nifer cyfartalog y diwrnodau (diwrnodau gwaith) i gwblhau oedd 45. Yn ystod y peilot, mae nifer cyfartalog y diwrnodau (diwrnodau gwaith) i gwblhau yn 24. Mae'r peilot wedi arwain at ganlyniadau gwych ac rwyf bellach wedi gofyn am gael gwneud y newidiadau gweinyddol yn barhaol ar gyfer apeliadau gwrthod asesu.

Rhesymau dros Dynnu'n Ôl:

Cafodd 37% o apeliadau eu tynnu'n ôl yn ystod 2011-2012. Trafodais y mater hwn â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ystod ein cyfarfod blynyddol ym mis Ionawr 2013 a gofynnodd y Gweinidog i mi edrych ar y rhesymau sylfaenol cyffredinol.

Rwyf wedi gofyn i'r ysgrifenyddiaeth gofnodi gwybodaeth gyffredinol am y rhesymau dros dynnu'n ôl.

Tynnwyd cyfanswm o 16 o achosion dros y cyfnod hwn:

- Tynnwyd 14 yn ôl gan y cafwyd cytundeb gyda'r awdurdod lleol
- Tynnwyd un yn ôl gan fod y rhieni yn symud ardal a ddim am barhau â'r apêl
- Tynnwyd un apêl yn ôl gan fod ysgol y plentyn wedi cytuno i gasglu tystiolaeth fel y gellid gofyn am asesiad yn y dyfodol.

Byddaf yn parhau i gofnodi rhesymau dros dynnu'n ôl ac yn amlygu'r mater hwn yn gyffredinol yn fy nghyfarfod blynyddol nesaf gyda'r Gweinidog.

Rheoli Achos a Chynadleddau Ffôn:

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi dechrau rheoli achosion mwy cymhleth. Rydym yn credu y dylai hyn arwain at ddarparu'r holl wybodaeth i'r panel tribiwnlys yn y gwrandawiad ac felly gobeithio osgoi unrhyw ohiriadau costus. Defnyddir cynadleddau ffôn hefyd, sy'n gost-effeithiol i bob parti gan ei fod yn golygu nad oes rhaid iddynt fynd i leoliad arbennig. Gall hefyd arwain at drafodaethau rhwng partïon gan gulhau materion o anghytuno.

Gwrandawiadau Papur:

Rwyf wedi meddwl ers peth amser y byddai'n addas ymdrin â rhai o'n hachosion drwy wrandawiadau papur. Mae tribiwnlysoedd eraill mewn awdurdodaethau gwahanol yn gwneud hyn ac rwy'n teimlo y gallai gael manteision i'r partïon oherwydd ni fyddai angen iddynt deithio i leoliadau, a all fod yn anodd ac yn ddrud i rai rhieni. Roedd gennyf ddiddordeb mawr yn y papur a gyhoeddwyd eleni gan yr Athro Fonesig Hazel Glenn a'r Athro Cheryl Thomas sef yr astudiaeth empirig gyntaf o wneud penderfyniadau barnwrol gan yr awdurdodaeth broffesiynol yn y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio efelychiad achos. Ar ôl darllen y papur hwn, roeddwn yn argyhoeddedig, er na fyddai gwrandawiad papur yn opsiwn hyfyw ar gyfer achosion cymhleth, roedd lle ar gyfer y mathau hyn o wrandawiad yn y Tribiwnlys, ar yr amod eu bod yn cael eu gwneud yn ofalus a bod pob parti wedi cydsynio i'r math hwn o wrandawiad. Cyn parhau â hyn ymhellach, cyflwynais yr awgrym i gyfarfodydd ein grŵp defnyddwyr i ganfasio eu safbwyntiau ac nid oedd gwrthwynebiad i'r syniad o ystyried y materion diogelwch uchod. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu mynd â'r mater hwn ymhellach fel peilot ar gyfer y 12 mis nesaf ac mae ein ffurflenni cais wedi'u diwygio i adlewyrchu hyn.

Byddaf yn adrodd ar y canlyniad yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Apeliadau a Ildiwyd:

Rwy'n bryderus ynghylch nifer yr apeliadau a gafodd eu hildio a byddaf yn edrych yn ofalus am y rhesymau dros hyn dros y flwyddyn nesaf. Byddaf yn adrodd ar y canlyniad yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Mesur Addysg (Cymru) 2009

Cafodd y Tribiwnlys un cais yn ystod 2011-2012 gan ddefnyddio'r hawliau newydd i blant a phobl ifanc i gyflwyno apêl neu gais. Mae'r hawliau hyn ond yn gymwys i'r rhai sy'n byw yn Wrecsam neu Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd. Cynhaliwyd y gwrandawiad yn ystod 2012-2013 a chafodd ei gadarnhau. Nid oedd unrhyw apeliadau na cheisiadau wedi'u cyflwyno gan blentyn y flwyddyn tribiwnlys hon.

wyf yn teimlo y dylid barnu llwyddiant, neu fel arall, y cynllun yn ôl niferoedd yn unig. Mae'r peilot wedi rhoi pwyslais ar y plentyn, sy'n bwysig iawn yn fy marn i. Roedd yn rhaid i bartïon feddwl am beth oedd y plentyn eisiau gan ein bod bellach yn mynnu bod yr awdurdod lleol a'r rhieni yn cyflwyno safbwyntiau'r plentyn, waeth pwy sy'n cyflwyno'r apêl.

Rwyf yn dal yn bryderus nad yw'r cynllun hwn yn cyrraedd y plant a allai gael mwyaf o fudd honno - sef plant sy'n derbyn gofal. Rwyf wedi ceisio, drwy'r grwpiau defnyddwyr, annog awdurdodau lleol i gysylltu â'u hadrannau gwasanaethau cymdeithasol ynghylch y ddeddfwriaeth hon ac maent wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Rwyf hefyd wedi cynnig mynd at unrhyw adran gwasanaethau cymdeithasol i drafod/egluro'r ddeddfwriaeth, ond, hyd yma, does neb wedi achub ar y cyfle hwnnw. Byddwn yn croesawu unrhyw gymorth y gallai Llywodraeth Cymru ei roi mewn cysylltiad â hyn. Roedd y peilot i fod i adrodd ym mis Tachwedd 2013 ac rydym i gyd yn aros yn frwd am ganfyddiadau'r Adroddiad.

Cyfarfod Rhwng Awdurdodaethau

Y Tribiwnlys wnaeth gynnal y cyfarfod eleni. Mae Llywyddion Tribiwnlysoedd Anghenion Addysgol Arbennig a Thribiwnlysoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol Lloegr, yr Alban, Iwerddon a Chymru wedi cyfarfod yn flynyddol am beth amser erbyn hyn i gyfnewid safbwyntiau a syniadau. Bu hyn yn llwyddiannus iawn ac wedi arwain at ein Tribiwnlys yn gallu cael mynediad i rai o'r digwyddiadau hyfforddiant perthnasol a gynhaliwyd gan y Tribiwnlysoedd eraill. Mae hyn yn gost-effeithiol i Dribiwnlys bach fel ni. Mae profiadau rhai o'r Tribiwnlysoedd mwy hefyd wedi ein helpu wrth ystyried a yw rhai newidiadau yn ddefnyddiol neu beidio.

Cyfarfod â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Rwy'n edrych ymlaen at gyfarfod â Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau newydd ym mis Ionawr 2014. Rwy'n hapus i sôn am unrhyw gwestiynau a phryderon a allai fod gan ddefnyddwyr y Tribiwnlys.

Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd

Cafodd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ei ddiddymu fel rhan o'r newidiadau a ddeddfwyd o dan y Bil Cyrff Cyhoeddus. Mae Pwyllgor Cymru bob amser wedi bod yn gymorth gwerthfawr i TAAAC. Disgwylir y bydd Pwyllgor Cynghori Cyfiawnder Gweinyddol i Gymru yn cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru.

Dros gyfnod yr adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi arsylwi gwrandawiadau TAAAC. Rwy'n falch o nodi adborth cadarnhaol iawn gan Lywodraeth Cymru sy'n cadarnhau bod gwrandawiadau TAAAC wedi'u rheoli'n dda a'u cynnal i safon uchel.

Aelodau ac Ysgrifenyddiaeth

Hoffwn ddiolch a dymuno'n dda i: Leon Mills, sydd wedi'i ddyrchafu i swydd Rheolwr Busnes ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru, i Adrian Evans sydd wedi cymryd swydd Rheolwr

bod wedi bod yn aelodau gwerthfawr o dîm TAAAC. Ar ran yr aelodau a'r ysgrifenyddiaeth, rwy'n dymuno'n dda iddynt.

Croeso cynnes i Sarah Smith a gymerodd le Ann fel Ysgrifennydd y Tribiwnlys ym mis Medi 2013.

Cynllun Hyfforddi ac Arsylwi Perfformiad (TOPS)

Un broblem o fod yn Dribiwnlys bychan yw canfod ffordd briodol o arfarnu perfformiad ein haelodau. Rydym wedi bod yn ymwybodol o argymhellion adroddiad y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd fod hwn yn fater y mae angen i ni fynd i'r afael ag ef.

Ystyrir arfarniad o dan y Coleg Barnwrol fel elfen yn y "mesur o berfformiad effeithiol" a rhai amcanion o unrhyw gynllun fyddai:

- cynnal hyder y cyhoedd
- cynnal safonau a chysondeb arfer
- sicrhau bod unigolion yn parhau i ddangos priodweddau a galluoedd priodol ar gyferperfformiad effeithiol eu rôl
- nodi anghenion hyfforddi a datblygu unigol
- creu cyfleoedd i unigolion godi materion yn ymwneud â gweithdrefn, hyfforddiant a'u profiad o ymgynnull.

Mae amcanion o'r fath yn ganmoladwy iawn ac, mewn byd perffaith, dyma beth fyddem i gyd yn hoffi ei gyflawni. Rydym wedi ystyried yn ofalus creu cynllun sy'n addas i'r Tribiwnlys. Ar ôl meddwl llawer ac ymgynghori, penderfynwyd, gan ein bod yn ymgynnull fel tîm, y byddai'n briodol i ni gael ein harfarnu fel tîm. Rydym yn ddiolchgar i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig am rannu eu cynllun arfarnu, TOPS. TOPS yw'r cynllun hyfforddi ac arsylwi y credwn sy'n cymryd yr holl bwyntiau da sy'n angenrheidiol ar gyfer cynllun arfarnu ac yn rhoi'r pwyntiau hynny i gynllun sydd wedi'i deilwra ar gyfer ein Tribiwnlys. Rhoddwyd y cynllun ar waith, a, hyd yma, arsylwyd dau banel.

I gloi

Er i'r tribiwnlys gofrestru nifer lleiaf yr apeliadau eleni ers sefydlu'r tribiwnlys, mae wedi bod yn flwyddyn brysur a heriol. Mae'r apeliadau wedi bod yn fwy cymhleth ac mae nifer y penderfyniadau gan y llywydd wedi cynyddu'n sylweddol.

Rwy'n siŵr y bydd y flwyddyn i ddod yn llawn heriau unwaith eto, yn enwedig yn y cyfnod economaidd anodd hwn. Fodd bynnag, gyda chymorth parhaus a gwaith caled fy ysgrifenyddiaeth, cadeirydd ac aelodau gwych, rwy'n sicr y bydd y Tribiwnlys mewn sefyllfa dda i fodloni'r heriau hyn. Gyda phleser mawr rwy'n cydnabod gwaith caled ac ymrwymiad y tîm gan ddiolch am eu cymorth.

Adran 2 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon, ein:

- Cefndir
- Trosolwg o weithdrefnau
- Aelodau o'r Tribiwnlys

Cefndir

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn clywed ac yn penderfynu ar apeliadau am blant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Gwneir apeliadau gan rieni ac maent yn erbyn rhai penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol am addysg plentyn. Mae'r Tribiwnlys hefyd yn clywed ceisiadau yn erbyn ysgolion Cymru ac awdurdodau lleol lle y bu gwahaniaethu ar sail anabledd.

Mae TAAAC, aelodau ei dribiwnlys a'i benderfyniadau, yn annibynnol ar y Llywodraeth ac awdurdodau lleol, ac mae ein penderfyniadau wedi'u rhwymo mewn cyfraith. Darperir cyllid ar gyfer y tribiwnlys a'i gymorth gweinyddol gan Lywodraeth Cymru.

O wanwyn 2012, mae plant a phobl ifanc sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin a Wrecsam, wedi gallu gwneud eu hapeliadau a'u ceisiadau eu hunain yn erbyn awdurdodau lleol ac ysgolion yn yr ardaloedd hyn. Mae'r hawliau hyn yn cael eu profi yn gyntaf, ac unwaith y bydd y prawf wedi gorffen, disgwyliwn y bydd pob plentyn ym mhob ardal yng Nghymru yn gallu gwneud ei gais ei hun. Disgwylir cyflwyno hyn erbyn mis Mehefin 2015.

Y rheoliadau gweithdrefnol ar gyfer y Tribiwnlys yw Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012.

Trosolwg o'r Gweithdrefnau

Prif amcanion y Tribiwnlys yw delio ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl y bydd rhieni, cynrychiolwyr, swyddogion awdurdodau lleol a chyrff â chyfrifoldeb yn helpu gyda'r prif amcanion drwy gydweithredu â'i gilydd a'r Tribiwnlys er mwyn bwrw ymlaen â'r apêl neu'r cais.

Yn y Gwrandawiad, mae panel y tribiwnlys yn cynnwys Cadeirydd sy'n gymwys yn gyfreithiol a dau Aelod Lleyg. Penodir yr Aelodau Lleyg oherwydd eu harbenigedd a gwybodaeth gyffredinol.

Cynhelir Gwrandawiadau'r Tribiwnlys yn breifat fel arfer ac maent yn digwydd ger cartref yr ymgeiswyr. Mae trefniadau'r gwrandawiad yn ystyried unrhyw ofynion arbennig y rhai sy'n mynychu, fel mynediad i gadeiriau olwyn, cymorth clywedol, dehonglydd, ac ati.

Aelodau'r Tribiwnlys

Mae'r Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol am benodiad ac ailbenodiad y Llywydd a'r Cadeiryddion. Penodir aelodau'r panel addysg gan Weinidogion Cymru.

Llywydd Mae'r Llywydd yn gyfrifol am waith gweinyddu barnwrol cyffredinol y Tribiwnlys.

Aelodau'r Panel Addysg Mae gan Aelodau'r Panel Addysg amrywiaeth eang o wybodaeth a phrofiad perthnasol y gallant gyflwyno i bob Gwrandawiad. Maent yn ymgynnull ar Apeliadau Anghenion Addysgol Arbennig ac ar Hawliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

Ysgrifenyddiaeth Dyrennir y gwaith gweinyddol dyddiol i'r Ysgrifenyddiaeth sy'n delio â'r gwaith papur rhagarweiniol ac yn prosesu'r ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cael cyngor y Llywydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod apeliadau neu brosesau hawliadau ac yn anfon Cyfarwyddiadau'r Llywydd ymlaen yn ysgrifenedig at y partïon. Yr Ysgrifenyddiaeth yw'r pwynt cyswllt ar gyfer y Llywydd, Aelodau a phartïon ac mae clerc yn mynychu'r holl wrandawiadau er mwyn sicrhau bod y trafodion yn rhedeg yn ddidrafferth.

Aelodau'r Tribiwnlys	Ysgrifenyddiaeth
Llywydd Rhiannon Walker	**Ysgrifennydd/Rheolwr** Sarah Smith
Aelodau Cyfreithiol Mark Allen Jacqueline Blackmore Gwyn Davies Meleri Tudur	**Ysgrifenyddiaeth** Tania Ryland Danielle Cosgrave
Aelodau'r Panel Addysg Sandy Boyle Norman Donavon Richard Ellis Owen Gwyn Griffiths Hillary Hayward Catrin Lewis Gareth Roberts Sian Wyn Siencyn Sue Taylor Andrew Wilson	

Hyfforddiant

Cynhaliwyd hyfforddiant llawn i aelodau ym mis Mehefin 2013 a chynhaliwyd cynhadledd i aelodau ym mis Hydref 2012. Cynhaliwyd hyfforddiant i'r ysgrifenyddiaeth ym mis Mawrth 2013.

Cysylltu â'r Tribiwnlys

I gysylltu â Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru:

Cyfeiriad: Adeiladau Llywodraeth
Heol Spa Ddwyrain
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

Ffôn: 01597 829800

Ffacs: 01597 829801

E-bost: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk

Adran 3 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon, ein:

- Rhifau ac ystadegau
- Adolygiadau ac apeliadau a symudir ymlaen
- Cyflawniad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion
- Yr Iaith Gymraeg

Rhifau ac Ystadegau

Mae blwyddyn y Tribiwnlys yn rhedeg o fis Medi i fis Awst.

Casglwyd yr ystadegau canlynol:

Apeliadau a ddaeth i law a'u rhyddhau yn ôl y flwyddyn	Tabl 1.1	Tudalen 15
Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl math o apêl	Tabl 1.2	Tudalen 16
Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl awdurdod lleol	Tabl 1.3	Tudalen 17
Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl awdurdod lleol a math	Tabl 1.4	Tudalen 18
Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl awdurdod lleol a phoblogaeth ysgol	Tabl 1.5	Tudalen 20
Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl oed ysgol a math o apêl	Tabl 1.6	Tudalen 21
Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl oed ysgol ac awdurdod lleol	Tabl 1.7	Tudalen 22
Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl angen addysgol arbennig	Tabl 1.8	Tudalen 23
Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl rhyw	Tabl 1.9	Tudalen 25
Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl ethnigrwydd	Tabl 1.10	Tudalen 25
Apeliadau yn ôl canlyniad	Tabl 1.11	Tudalen 26
Apeliadau yn ôl canlyniad a math	Tabl 1.12	Tudalen 27
Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol	Tabl 1.13	Tudalen 28
Hawliadau a gofrestrwyd ac a ryddhawyd yn ôl blwyddyn	Tabl 1.14	Tudalen 29
Hawliadau yn ôl canlyniad	Tabl 1.15	Tudalen 29
Ceisiadau llywyddol 2012 - 2013	Tabl 1.16	Tudalen 30

Tabl 1.1 Apeliadau a ddaeth i law a'u rhyddhau yn ôl y flwyddyn



2012 – 2013	Nifer yr Apeliadau	2011 – 2012	Nifer yr Apeliadau
Wedi'u cofrestru	73	Wedi'u cofrestru	86
Heb eu cofrestru	8	Heb eu cofrestru	5
Cyflawnwyd	83	Cyflawnwyd	80

Tabl 1.2 Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl math o apêl

Math o Apêl	2012 – 2013		2011 - 2012	
	Cyfanswm yr Apeliadau 73		Cyfanswm yr Apeliadau 86	
Gwrthod Asesu	21	29%	28	33%
Gwrthod rhoi Datganiad	10	14%	12	14%
Gwrthod Ailasesu	0	0%	1	1%
Dod â Datganiad i Ben	1	1%	0	0%
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	16	22%	24	28%
Cynnwys Datganiad Rhannau 2,3 a 4	16	22%	11	13%
Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig	3	4%	6	7%
Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig	4	5%	2	2%
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	2	3%	2	2%

Tabl 1.3 Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl awdurdod lleol

	2012 – 2013		2011 - 2012	
	Cyfanswm yr Apeliadau	Canran	Cyfanswm yr Apeliadau	Canran
Blaenau Gwent	1	1%	1	1%
Pen-y-Bont ar Ogwr	3	4%	2	2%
Caerffili	1	1%	2	2%
Caerdydd	8	11%	12	14%
Sir Gar	2	3%	7	8%
Ceredigion	1	1%	1	1%
Conwy	3	4%	7	8%
Sir Ddinbych	2	3%	2	2%
Sir y Fflint	2	3%	0	0%
Gwynedd	0	0%	3	3%
Merthyr Tudfil	0	0%	2	2%
Sir Fynwy	2	3%	6	7%
Castell-nedd Port Talbot	7	10%	1	1%
Casnewydd	20	27%	8	9%
Sir Penfro	1	1%	0	0%
Powys	1	1%	8	9%
Rhondda Cynon Taf	3	4%	7	8%
Abertawe	13	18%	9	10%
Torfaen	0	0%	2	2%
Bro Morgannwg	2	3%	5	6%
Wrecsam	0	0%	0	0%
Ynys Mon	1	1%	1	1%
Cyfanswm	**73**	**100%**	**86**	**100%**

Tabl 1.4 Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl awdurdod lleol a math

	Gwrthod Asesu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod Ailasesu	Dod â Datganiad i Ben
Blaenau Gwent	0	0	0	0
Pen-y-Bont ar Ogwr	1	0	0	0
Caerffili	0	0	0	0
Caerdydd	3	3	0	0
Sir Gar	0	0	0	0
Ceredigion	0	0	0	0
Conwy	0	0	0	0
Sir Ddinbych	0	1	0	1
Sir y Fflint	1	0	0	0
Gwynedd	0	0	0	0
Merthyr Tudfil	0	0	0	0
Sir Fynwy	2	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	3	0	0
Casnewydd	8	2	0	0
Sir Penfro	0	0	0	0
Powys	0	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	0	0	0	0
Abertawe	5	1	0	0
Torfaen	0	0	0	0
Bro Morgannwg	1	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0
Ynys Mon	0	0	0	0
Cyfanswm	**21**	**10**	**0**	**1**

	Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 2,3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig	Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig
Blaenau Gwent	0	1	0	0	0
Pen-y-Bont ar Ogwr	0	2	0	0	0
Caerffili	0	0	0	1	0
Caerdydd	1	0	1	0	0
Sir Gar	0	2	0	0	0
Ceredigion	1	0	0	0	0
Conwy	1	2	0	0	0
Sir Ddinbych	0	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	1	0	0	0
Gwynedd	0	0	0	0	0
Merthyr Tudfil	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	2	2	0	0	0
Casnewydd	5	3	2	0	0
Sir Penfro	1	0	0	0	0
Powys	0	0	0	0	1
Rhondda Cynon Taf	1	2	0	0	0
Abertawe	3	0	0	1	3
Torfaen	0	0	0	0	0
Bro Morgannwg	1	0	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0	0
Ynys Mon	0	1	0	0	0
Cyfanswm	**16**	**16**	**3**	**2**	**4**

Tabl 1.5 Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl awdurdod lleol a phoblogaeth ysgol



Tabl 1.6 Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl oed ysgol a math o apêl



Tabl 1.7 Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl oed ysgol ac awdurdod lleol



Tabl 1.8 Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl angen addysgol arbennig



	2012-2013	2012-2013	2011-2012	2011-2012
Anhwylder y Sbecrwm Awtistig	21	29%	31	36%
Anhawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol	3	4%	3	3%
Amhariad ar y Clyw	2	3%	2	2%
Anhawsterau Dysgu Penodol	23	32%	24	28%
Anhawsterau Dysgu Cymedrol	0	0%	3	3%
Anhawsterau Ffisegol / Meddygol	0	0%	5	6%
Anhawsterau Dysgu Dwys a Lluosog	1	1%	0	0%
Anhawsterau Dysgu Disrifol	0	0%	0	0%
Anhawsterau Lleferydd a Iaith	5	7%	9	10%
Amhariad ar y Golwg	1	1%	0	0%
AAA Lluosog	13	18%	3	3%
Eraill / Anhysbys	4	5%	6	7%
Cyfanswm	**73**	**100%**	**86**	**100%**

Tabl 1.9 Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl rhyw



Tabl 1.10 Apeliadau a ddaeth i law yn ystod 2012-2013 yn ôl ethnigrwydd



Tabl 1.11 Apeliadau yn ôl canlyniad

2012 – 2013 *	Gwirioneddol	Canran	2011 – 2012 **	Gwirioneddol	Canran
Cadarnhawyd yn llawn	15	15%	Cadarnhawyd yn llawn	9	8%
Cadarnhawyd yn Rhannol	6	6%	Cadarnhawyd yn Rhannol	4	4%
Gwrthodwyd	3	3%	Gwrthodwyd	3	3%
Tynnwyd yn ôl	31	30%	Tynnwyd yn ô	39	37%
Cydsyniwyd	27	26%	Cydsyniwyd	24	23%
Dilëwyd	1	1%	Dilëwyd	1	1%
Dan ystyriaeth	19	19%	Dan ystyriaeth	29	24%
Cyfanswm	**102**	**100%**	**Cyfanswm**	**109**	**100%**

* gan gynnwys apeliadau a gariwyd drosodd o 2011 – 2012
** gan gynnwys apeliadau a gariwyd drosodd o 2010 – 2011

Tabl 1.12 Apeliadau yn ôl canlyniad a math (wedi'u cofrestru 2012 – 2013)

	Gwrthod Asesu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod Ailasesu	Dod â Datganiad i Ben
Cydsyniwyd	13	2	0	0
Tynnwyd yn ôl	6	3	0	1
Cadarnhawyd yn llawn	0	0	0	0
Cadarnhawyd yn Rhannol	0	0	0	0
Gwrthodwyd	0	1	0	0
Dilëwyd	1	0	0	0
Dan Ystyriaeth	1	4	0	0
Cyfanswm	**21**	**10**	**0**	**1**

	Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 2,3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig	Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig
Cydsyniwyd					2
Tynnwyd yn ôl	8	4			
Cadarnhawyd yn llawn	4	2	1	1	1
Cadarnhawyd yn Rhannol		2		1	
Gwrthodwyd					
Dilëwyd			1		
Dan Ystyriaeth	4	8	1		1
Cyfanswm	**16**	**16**	**3**	**2**	**4**

Tabl 1.13 Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol (wedi'u cofrestru 2012 – 2013)



Tabl 1.14 Hawliadau a gofrestrwyd ac a ryddhawyd yn ôl blwyddyn



Tabl 1.15 Hawliadau yn ôl canlyniad



Tabl 1.16 Ceisiadau llywyddol 2012 - 2013



Adolygiadau ac Apeliadau a Symudir Ymlaen

Gall rieni ac awdurdodau lleol wneud ceisiadau ar gyfer adolygiad o benderfyniad Tribiwnlys ar sail gyfyngedig. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwnaed 2 gais, cafodd un ei gadarnhau'n rhannol a chafodd un ei gadarnhau'n llawn.

Gellir gwneud apeliadau i'r Uwch Dribiwnlys gan rieni ac awdurdodau lleol yn erbyn penderfyniadau'r Tribiwnlys lle ystyriwyd bod y penderfyniad yn anghywir yn gyfreithiol. Rhaid cael caniatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys gan TAAAC Cymru yn gyntaf. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwnaed un cais am ganiatâd i apelio i TAAAC, ac mae'r achos yn dal i fynd rhagddo a byddwn yn adrodd arno yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Cyflawniad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol

I fonitro pa mor effeithiol y caiff gwasanaethau eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol wedi'u hanelu at fesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes, sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd ein gwasanaeth, drwy foddhad cwsmeriaid.

I fesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol yn seiliedig ar yr amser a gymerwyd i brosesu apêl – o dderbyn i'r Gwrandawiad neu ryddhau.

I fesur boddhad cwsmeriaid, defnyddiom ddangosydd sy'n deillio o'r arolygon cwsmeriaid cyfnodol.

Cyflymder ein gwasanaeth

Targed: delio â 95% o ymholiadau cyn cofrestru o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn Nodyn Apêl	→	Targed wedi'i gyflawni mewn 97% o achosion
Targed: 95% o apeliadau AAA wedi'u cofrestru o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn Nodyn Apêl	→	Targed wedi'i gyflawni mewn 94% o achosion
Targed: 75% o benderfyniadau wedi'u gwneud o fewn 10 diwrnod gwaith i wrandawiad	→	Targed wedi'i gyflawni mewn 78% o achosion
Targed: 75% o apeliadau AAA wedi'u rhyddhau o fewn 20 wythnos	→	Targed wedi'i gyflawni mewn 93% o achosion

Cwynion

Ni chafodd y Tribiwnlys unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

Yr Iaith Gymraeg

Mae gan y Tribiwnlys gynllun iaith Gymraeg sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Rydym yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth yr un mor dda i siaradwyr Cymraeg a Saesneg sy'n apelio neu'n gwneud hawliad i'r Tribiwnlys. Mae ein holl gyhoeddiadau a ffurflenni yn ddwyieithog a chynhelir gwrandawiadau ar gyfer apeliadau a hawliadau yn y ddwy iaith.

Pan nad Cymraeg na Saesneg yw'r iaith gyntaf, byddwn yn trefnu i gyfieithydd fynychu'r gwrandawiad a gwneud ein gorau i ddiwallu anghenion pob iaith.

Ni wnaed unrhyw apeliadau na hawliadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2012-2013.

Mae TAAAC yn cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ar weithredu ei gynllun. Mae copi o'r adroddiad ar gael ar wefan TAAAC a gellir cael copi drwy gysylltu â'r Tribiwnlys.

Adran 4 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon, ein:

- Arolwg boddhad cwsmeriaid
- Cyfarfodydd grŵp defnyddwyr

Arolwg Boddhad Cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio gwella darpariaeth gwasanaeth i gwsmeriaid ac ein nod yw rhoi ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae canlyniadau'r arolwg boddhad cwsmeriaid yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o anghenion ein cwsmeriaid gan roi cipolwg gwerthfawr i ni o beth mae'r Tribiwnlys yn ei wneud yn dda, yn ogystal ag amlygu'r meysydd hynny lle mae angen i'r Tribiwnlys wella.

Daeth 15 ffurflen wedi'i chwblhau i law dros gyfnod yr adroddiad, ac o'r rheiny:

- dywedodd 98% o gwsmeriaid ein bod yn gymwynasgar wrth ymdrin ag ymholiadau ffôn, ein bod wedi ymateb yn gyflym a'u bod yn fodlon â'r wybodaeth a gafwyd;
- cytunodd 100% o gwsmeriaid ein bod wedi prosesu eu hapêl / achos yn effeithiol
- cytunodd 88% o gwsmeriaid fod yr wybodaeth a gafwyd gennym yn glir ac yn gywir

Cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr

Cynhaliodd y Tribiwnlys Gyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr rhanbarthol ar 17 a 26 Medi 2012 a 13, 15 ac 22 Mai 2013. Roedd llawer o'n rhanddeiliaid yn bresennol yn y cyfarfodydd, a oedd yn cynnwys swyddogion awdurdod lleol, grwpiau cymorth partneriaeth rhieni, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chynrychiolwyr cyfreithiol.

Ymysg y papurau a'r eitemau a drafodwyd oedd dyletswyddau'r awdurdod lleol a Deddf Cydraddoldeb 2010, Adroddiad Blynyddol 2011-2012, y diweddaraf ar y peilot hawl y plentyn i apelio / hawlio a'r diweddaraf ynghylch yr ymgynghoriad diwygio statudol.

Mae gwybodaeth am Gyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr y Tribiwnlys ar gael ar ein gwefan www.taaac.gov.uk. Cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth os hoffech ddod i'r cyfarfodydd.

Adran 5 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon, ein:

- Blaenoriaethau Busnes ar gyfer 2013 – 2014

Mae'n bwysig bod y Tribiwnlys yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon ynglŷn â sut fydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar ei lwyddiannau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

Blaenoriaethau Busnes ar gyfer 2013 – 2014

- datblygu gwefan y Tribiwnlys fel ei fod yn offeryn mwy effeithiol i ddefnyddwyr
- parhau â'r Cynllun Hyfforddi ac Arsylwi Perfformiad (TOPS) i aelodau
- datblygu DVD y Tribiwnlys fel ei fod yn unol â chynllun yr iaith Gymraeg.

Adran 6 – Gwariant

Yn yr adran hon, ein:

- Gwariant ar gyfer 2012 - 2013

Gwariant ar gyfer 2012 – 2013

CYNNWYS	SWM
Ffioedd Aelodau	£111,000
Hyfforddiant	£3,000
Gwrandawiadau, gohiriadau a grwpiau defnyddwyr	£27,000
Gwariannau Apêl Eraill e.e. gwariannau tystion	£500
Gwariannau'r Swyddfa (rhannu adnoddau â dau dribiwnlys arall)	£11,000
CYFANSWM	**£152,500**

* wedi'i dalfyrru i'r £1,000 agosaf

Telir am gostau ychwanegol fel cyflogau staff i'r ysgrifenyddiaeth a llety a rennir y Tribiwnlys yn ganolog gan Lywodraeth Cymru.